

Cynllun Gweithlu Strategol Genomeg

Prif Gamau Gweithredu (ar gyfer ymgynghori) Ebrill 2024

O fewn y camau hyn, rydym yn defnyddio'r term 'gwasanaethau genomeg arbenigol' i gyfeirio at Wasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan ac Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydym yn defnyddio 'gweithlu genomeg arbenigol' i gyfeirio at staff y GIG sy'n gweithio o fewn y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithlu technegol y labordy
- Gweithlu gwyddonwyr clinigol y labordy
- Gweithlu gwyddonwyr biofeddygol y labordy
- Biowybodegwyr
- Cynghorwyr Genetig
- Genetegyddion Clinigol (gweithlu meddygol)

Mae staff Parc Geneteg Cymru yn cael eu cyflogi gan Brifysgol Caerdydd ac maent yn cynnwys ymchwilwyr (technegwyr, gwyddonwyr a biowybodegwyr) a'r tîm Addysg ac Ymgysylltu.

Adran 1: Camau yn ymwneud â'r gweithlu genomeg arbenigol o fewn Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan ac Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru (PenGU)

Rhif	Thema	Gweithred	Arweinydd
1	Atynnu a Recriwtio	Hyrwyddo argaeledd gyrfaedd o fewn gwasanaethau genomeg: (a) Hyrwyddo argaeledd a hyfywedd gyrfaedd genomeg gan ddefnyddio'r llwyfannau sydd ar gael; datblygu dull pwrpasol o hyrwyddo a chynnwys genomeg ar we-lwyfan Tregyrfa. (b) Anelu gwaith allanol at ffeiriau gyrfaedd chweched dosbarth ar draws ysgolion a cholegau Cymru i godi ymwybyddiaeth o yrfaoedd o fewn gwasanaethau genomeg. (c) Anelu gwaith allanol at gyrsiau gwyddoniaeth, genomeg a gwyddor biofeddygol ym Mhrifysgolion Cymru, gan gynnwys ffeiriau gyrfaedd a chymdeithasau gwyddorol.	AaGIC Tîm Addysg ac Ymgysylltu Parc Geneteg Cymru Tîm Addysg ac Ymgysylltu Parc Geneteg Cymru
2		Datblygu cynllun braenaru i alluogi trefniadau partneriaeth â sefydliadau academiaidd neu sefydliadau'r diwydiant. Nod y cynllun fydd caniatáu i staff y gweithlu genomeg arbenigol rychwantu darpariaeth gwasanaethau ac ymchwil/ysgolheictod y GIG, er budd atynnu a chadw staff medrus.	Gwasanaethau arbenigol
3		Hwyluso cyfleoedd gweithio hyblyg a gweithio o bell i staff arbenigol trwy fuddsoddi mewn system reoli labordy wedi'i huwchraddio, er budd atynnu a chadw staff.	Gwasanaethau arbenigol
4		Gweithio gyda sefydliadau addysg uwch (SAU) i gynnwys genomeg pathogenau yn y cwricwlwm Rhaglen Hyfforddi Ymarferwyr (PTP) Gwyddor Gofal Iechyd: Gwyddor Bywyd, i hyrwyddo gyrfaedd o fewn y gwasanaeth genomeg pathogenau.	AaGIC

Rhif	Thema	Gweithred	Arweinydd
5	Addysg a Dysg Ragorol	Cyfnwrthu arbenigedd a hyfforddiant y gweithlu genomeg arbenigol drwy gynorthwyo staff i sicrhau cofrestriad statudol neu gofrestrriad gwirfoddol: (a) Mapio llwybrau cyfatebol/cyferwerthedd â'r Sefydliad Gwyddorau Biofeddygol (Tystysgrif Cymhwysedd Cyfatebol) neu'r Academi Gwyddor Gofal Iechyd (hyfforddiant cyfatebol i'r Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr) ar gyfer technegwyr labordy a chynghorwyr genetig i asesu cyfleoedd er budd datblygu llwybrau gyrfa yn ogystal ag addysg a hyfforddiant newydd. (b) Sicrhau modd o gyrchu cymorth addysg a hyfforddiant i alluogi'r holl gynghorwyr genetig, biowybodegwyr, technegwyr labordy, gwyddonwyr biofeddygol a gwyddonwyr clinigol i sicrhau cofrestriad proffesiynol priodol i wella diogelwch cleifion.	AaGIC AaGIC
6		Cynnal adolygiad manwl o'r fframwaith addysg ar gyfer gwyddor gofal iechyd i ategu datblygiad gwasanaethau genomeg pathogenau fel rhan o gam 2 yr Adolygiad Strategol o Raglenni Addysg (SREP2) gan gynnwys: (a) Gweithio gyda phartneriaid yn y DU i sicrhau addysg a hyfforddiant priodol ym maes genomeg pathogenau ar gyfer gwyddonwyr clinigol a biowybodegwyr, gan gynnwys llwybrau cofrestriad priodol. (b) Gweithio gyda'r Academi Gwyddor Gofal Iechyd i gytuno ar lwybr cyfatebol priodol a'i gyhoeddi i sicrhau cofrestriad ar gyfer gwyddonwyr clinigol ym maes biowybodeg pathogenau.	AaGIC
7		Ehangu nifer y bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau arbenigol a gaiff eu meithrin a'u cymell at gyflogaeth drwy addysg a llwybrau dysgu gwyddor gofal iechyd (gan gynnwys prentisiaethau). (a) Gweithredu'r llwybrau dysgu ar gyfer gwyddor gofal iechyd a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas. (b) Defnyddio'r llwybrau dysgu i ddatblygu rôl ymarferwyr cynorthwyol ar draws gwasanaethau arbenigol.	AaGIC Gwasanaethau Arbenigol

Rhif	Thema	Gweithred	Arweinydd
8		Cryfhau seilwaith addysg a hyfforddiant i gyflymu cronfeydd hyfforddi ac i leihau'r baich hyfforddiant ar staff arbenigol: (a) Nodi sut i gyflymu hyfforddiant a chwtogi hyd hyfforddiant ar gyfer rolau gwyddor gofal iechyd o fewn gwasanaethau genomeg arbenigol. (b) Sicrhau bod GIG Cymru yn cyfrannu at Academi Hyfforddiant Genomeg GIG Lloegr (GTAC) a nodi sut y gellir defnyddio adnoddau GTAC i hyrwyddo llwybrau hyfforddiant carlam ar gyfer rolau allweddol. (c) Llunio cynllun datblygu addysgwyr sy'n cyfoethogi ansawdd addysg a hyfforddiant o fewn gwasanaethau arbenigol.	Gwasanaethau arbenigol AaGIC AaGIC
9		Sefydlu adnodd hirdymor i oruchwyllo addysg a hyfforddiant genomeg o fewn AaGIC a gweithredu fel cyswllt allweddol â chenhedloedd eraill y DU i elwa i'r eithaf ar gyd-ymrwymadau gweithluoedd y DU.	AaGIC
10	Modelau Gweithlu Di-dor	Ehangu modelau gweithlu amlbroffesiynol o fewn gwasanaethau genomeg. Hefyd, gweithio gyda phartneriaid yn y DU i weithredu fframwaith ar gyfer rolau cymdeithion/ymarferwyr genomig cymhorthol o fewn y gwasanaeth genomig arbenigol i ategu'r gwaith o ddarparu gofal iechyd darbodus.	AaGIC
11		Nodi sut y gellir defnyddio'r fframwaith ymarfer estynedig, uwch ac ymgynghorol o fewn y gwasanaethau arbenigol i ddarparu llwybrau gyrfa strwythuredig i'r gweithlu amlbroffesiynol.	Gwasanaethau Arbenigol
12		Mapio llwybrau gyrfa cyfredol ar gyfer holl feysydd gwyddor gofal iechyd, â'r nod o greu fframwaith/fframweithiau gyrfa ar eu cyfer. Bydd(ant) yn ystyried anghenion gwasanaethau i'r dyfodol ym mhob rhanbarth yng Nghymru ac yn ymroi i wella cyfraddau atynnu a chadw staff.	AaGIC (HCS)
13		Cynyddu niferoedd y gwyddonwyr biofeddygol genomig sy'n gweithio o fewn y gwasanaethau genomeg arbenigol i optimeiddio sgiliau er budd trawsnewid y gweithlu i fod yn gwbl gofrestredig.	Gwasanaethau arbenigol
14	Cyflenwad a Ffurf y Gweithlu	Adolygu allgynnyrch ymarferion modelu'r gweithlu a gynhelir yn GIG Lloegr (Akeso). At hynny, ystyried maint a ffurf y gweithlu i'r dyfodol sydd ei angen ar Gymru i fodloni'r galw cynyddol am brofion genomig a	AaGIC

Rhif	Thema	Gweithred	Arweinydd
		genomeg iechyd y cyhoedd. Hefyd, nodi cynyddiadau angenrheidiol drwy gyfrwng y Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant blynyddol.	
15		Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys PenGU, i ystyried maint a ffurf y gweithlu sydd ei angen ar Gymru i'r dyfodol i fodloni'r galw cynyddol am genomeg iechyd y cyhoedd. At hynny, nodi'r cynyddiadau angenrheidiol drwy gyfrwng y Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant blynyddol.	AaGIC
16	Arweinyddiaeth ac Olyniaeth	Hyrwyddo rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr presennol a darpar arweinwyr gwasanaethau genomeg arbenigol.	AaGIC
17		Ymgorffori datblygiad arweinyddiaeth o fewn gwasanaethau genomeg arbenigol ar gyfer arweinwyr presennol a darpar arweinwyr.	Gwasanaethau arbenigol
18	Gweithlu sy'n Ddigidol Barod	Gweithio gyda DHCW a rhaglenni unigol i gyflunio map ffordd digidol ar gyfer genomeg i nodi cyfleoedd ar gyfer ailgynllunio rolau, creu rolau newydd a phennu gofynion addysg a hyfforddiant.	AaGIC
19		Gweithredu dull cenedlaethol o graffu ar y gorwel ar gyfer datblygiadau arloesol, a gwelliannau o ran technoleg ac offer diagnostig, a fyddai'n darparu cyfleoedd i drawsnewid y gweithlu. Byddai hyn yn cynnwys camau gweithredu penodol sy'n codi yn sgil y Comisiwn ar Ddeallusrwydd Artiffisial.	AaGIC

Adran 2: Camau gweithredu sy'n ymwneud â gweithlu ehangach y GIG

Rhif	Thema	Gweithred	Arweinydd
20	Addysg a Dysg Ragorol	Arfarnu effaith rhaglenni addysg cyfredol ac ystyried eu datblygu ymhellach i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol: • Modiwlau MSc • Modiwlau e-ddysgu	AaGIC
21		Datblygu pecynnau addysg penodol a fydd yn gwella hyfedredd genomig drwy ystod y maes iechyd clinigol a chyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar genomeg pathogenau. Gwneir hyn ar y cyd ag Uned Genomeg Pathogenau Iechyd Cyhoeddus Cymru (PenGU).	AaGIC
22		Datblygu adnoddau ychwanegol drwy gyfrwng Y Tî Dysgu i hyrwyddo prif ffrydio, gan gynnwys: (a) Adnoddau digidol sy'n helpu i brif ffrydio genomeg, e.e. sut i asesu addasrwydd ar gyfer profion, sut i ymfyn cydsyniad, archebu profion, a dehongli a chyflwyno canlyniadau. (b) Adnoddau cleifion wedi'u brandio y gall clinigwyr gyfeirio cleifion atynt, gan leihau'r amser a dreulir yn ateb cwestiynau wyneb yn wyneb. (c) Pecyn cymorth er budd cynllunio gweithrediad profion genomig (profion diagnostig a phrofion ffarmacogenomig) mewn gwasanaethau penodol. Bydd o gymorth i nodi pa weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â pha gamau a chyfeirio at adnoddau addysg a hyfforddiant perthnasol ar gyfer pob cam.	AaGIC
23		Hyrwyddo addysg genomig ar gyfer gweithlu'r dyfodol drwy ymroi i'r canlynol: a) Sicrhau bod addysg genomig yn rhan annatod o bob cwricwla israddedig neu gyfnod sylfaen sy'n berthnasol i bob grŵp proffesiynol. b) Gweithio gyda SAU i ddarparu addysg genomig briodol o fewn hyfforddiant ôl-gofrestru fel gofyniad cytundebol, fel yn achos y contractau hyfforddiant cyn-gofrestru.	AaGIC
24		Gweithio gyda'r canlynol:	AaGIC

		a) Arweinwyr amlbroffesiynol yr Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol a DPP Meddygon Teulu i hyrwyddo argaeledd adnoddau addysgol i gynorthwyo staff sy'n gweithio mewn meddygfeydd a fferyllfeydd cymunedol. b) Canolfannau ôl-raddedig ac adrannau hyfforddiant i hyrwyddo argaeledd adnoddau addysgol i gynorthwyo staff sy'n gweithio ym maes gofal eilaidd.	
25		Gweithio gyda'r holl Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddynodi arweinydd uwch/gweithredol i gymryd yr awenau o ran y goblygiadau i'r gweithlu yn sgil prif ffrydio genomeg.	GPW
26		Nodi'r gofynion/anghenion addysg a hyfforddiant a chymhwysedd sy'n deillio o'r maes profion genomig newydd a'r llwybrau clinigol ffarmacogenomig i hyrwyddo prif ffrydio effeithiol.	AaGIC
27		Gweithio gyda'r Grŵp Ffarmacogenomig Cenedlaethol i nodi goblygiadau prif ffrydio ffarmacogenomeg ac yn benodol: (a) Yr angen am addysg a hyfforddiant ychwanegol i gynorthwyo timau amlbroffesiynol y bydd angen iddynt fod yn gymwys i ddarparu ffarmacogenomeg fel rhan o ddarpariaeth gwasanaethau. (b) Y gofyniad am rolau estynedig, uwch ac ymgynghorol i ategu ffarmacogenomeg. (c) Maint a ffurf y gweithlu sy'n angenrheidiol i ateb y galw cynyddol am ffarmacogenomeg (tymor canolig a thymor hir). Hefyd, anghenion addysg a hyfforddiant cynyddol gweithwyr proffesiynol penodol (h.y. gweithwyr fferyllol proffesiynol) y mae'n rhaid eu hystyried yn y Cynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant blynyddol.	AaGIC